

y wynnes

Cynllun Cyfranddaliadau



Ein Tafarn
Ein Cymuned
Ein Dyfodol

Awst 2025

Yr Wynnes Cyfyngedig (FCA Registration No. 9526)

Mae'r ddogfen Cynnig Cyfranddaliadau yn darparu manylion llawn am y cynnig. Mae'r Cynllun Busnes llawn yn ddogfen ar wahan ac ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu gyda ni.

Dyddiad Cau Cynnig Cyfranddaliadau: 15/10/25

Ebost: Tafarnwynnes@gmail.com

Gwefan: [Home](#) | [Y Wynnes](#)



1. Crynodeb Gweithredol

Mae Yr Wynnes Cyfyngedig yn Gymdeithas Budd Cymunedol sydd wedi cael ei chreu gan bobl leol i sicrhau a diogelu dyfodol Tafarn Yr Wynnes, Gwynedd a sicrhau ei fod yn parhau fel canolbwyt cymunedol er budd y gymuned leol.

Rydym yn anelu at godi **£75,000** o'r Cynnig i Brynu Cyfranddaliadau, sy'n agored i'r gymuned ac i'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae'r targed wedi ei osod ar sail cost prynu'r dafarn (£110,000), costau cyfreithiol ac arian tuag at y gwaith adnewyddu. Mae grant £50,000 wedi'i ddiogelu tuag at y pryniant, ond rhaid codi'r gwahaniaeth drwy'r cyfranddaliadau.

Mae prynu cyfranddaliadau yn eich gwneud chi'n Aelod o'r gymdeithas ac yn rhoi llais i chi ar sut mae'n cael ei rhedeg. Mae gan bob aelod un bleidlais, waeth faint o gyfranddaliadau maen nhw'n eu prynu. **Isafswm cyfranddaliad yw £50 a'r uchafswm yw £10,000.**

Mae'r ddogfen hon:

- yn disgrifio'r prosiect, a'i fuddion i aelodau ac i'r gymuned

- yn egluro natur y gymdeithas a sut y bydd y cynnig cyfranddaliadau yn gweithio
- yn cynnwys gwybodaeth ar sut i wneud cais am gyfranddaliadau

2.Y Weledigaeth a'r Gwerthoedd

Ar ôl dros wyth mlynedd o dywyllwch y tu ôl i'r drysau, byddwn yn ailagor y lle hwn fel symbol o obaith, adnewyddu a balchder lleol i Manod, Flaenau Ffestiniog

Bydd hon yn fwy na thafarn – bydd yn **galon** y pentref, yn fan croeso i bawb, ac yn sbardun i adfywiad economaidd a diwylliannol. Lle i greu atgofion, datblygu syniadau, a chynnal traddodiadau ein hardal a'n hiaith.

Adfywio a Gobaith

Troi adeilad segur yn fan llawn bywyd ac yn symbol o obaith i genedlaethau'r dyfodol. Sicrhau bod yr economi cylchol leol yn ffynnu drwy greu swyddi a chefnogi busnesau lleol.

Cymuned a Chynhwysiant

Darparu lle croesawgar i bawb – o'r pentrefwyr hynaf i'r teuluoedd newydd. Cynnal digwyddiadau sy'n uno pobl a chryfhau'r rhwydwaith cymunedol.

Iaith a Diwylliant Byw

Sicrhau mai'r Gymraeg yw iaith naturiol y dafarn, o'r cownter i'r llwyfan ac bod croeso cynnes i pawb sydd yn ymweld yn cael cyfle i fod yn rhan o'r diwylliant. Cynnal cerddoriaeth fyw, nosweithiau llenyddol a dathliadau lleol sy'n adlewyrchu ein diwylliant.

Cyfleoedd a Dyfodol

Creu llwyfan i entrepreneuriaid lleol a phobl ifanc i ddatblygu syniadau a sgiliau. Cynnig hyfforddiant a phrofiad gwaith i sicrhau dyfodol cadarn i'n pobl ifanc.

Balchder yn Ein Hardal

Gwella golwg yr tafarn fel cychfan. Gwreiddio ymdeimlad o falchder yn y gymuned ac ysbrydoli cydweithio.

3.Amdan Yr Wynnes Cyfngedig

Yr Wynnes yw'r Gymdeithas Budd Cymunedol a ffurfiwyd fel y gall pobl Manod a'r gymuned ehangach sicrhau a diogelu dyfodol Tafarn Yr Wynnes.

Mae Cymdeithas Budd Cymunedol yn fath arbennig o gorff busnes sy'n eiddo i'r gymuned leol ac yn cael ei rhedeg er ei budd, yn hytrach nag er mwyn elw preifat. Ein nod yw prynu, ac ailagor Y Wynnes fel tafarn a chanolbwyt gweithredol ar gyfer pob math o weithgareddau cymunedol.

Mae colli tafarn bentref yn medru cael effaith ddinistriol ar gymunedau, gan gynyddu teimladau o unigrywyd ac arwahanrwyd, yn enwedig mewn pentrefi gwledig fel Manod.

Yn ddiwylliannol, mae'r pentref yn ganolfan gref i'r iaith Gymraeg. Bydd gwarchod ac hyrwyddo'r laith yn un o amcanion craidd y fenter. Credwn fod Y Wynnes yn ased cymunedol hanfodol ac y bydd ei werth a'r buddion sydd i'w cael ohono yn cael eu gwarchod orau os bydd Cymdeithas Budd Cymunedol yn berchen arno ac yn ei reddeg.

Mae hwn yn gyfle unigryw i ddod yn berchen ar ran bwysig o dreftadaeth yr ardal. Ond er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, mae angen i ni godi arian.

O'r gymuned leol y daw'r cyllid mwyaf allweddol a gall aelodau'r gymuned a'r cyhoedd ehangach rŵan brynu cyfranddaliadau yn y Gymdeithas er mwyn dod yn aelodau a chael dweud eu dweud ar sut mae'n cael ei rhedeg. Byddwn hefyd yn edrych am gyfleoedd i fanteisio ar grantiau amrywiol oddi wrth lywodraeth leol a chenedlaethol, ac oddi wrth ymddiriedolaethau annibynnol ac elusennol.

4. Pam Fuddsoddi yn Yr Wynnes?

Mae Yr Wynnes yn fwy na thafarn, mae'n gyfle i ailgynnau calon gymunedol Manod ac i greu ased sy'n eiddo i'r bobl leol, er budd pawb.

Drwy fuddsoddi yn Yr Wynnes, byddwch yn:

- **Adfer adeilad hanesyddol** a'i droi'n ganolfan fywiog ar gyfer y gymuned
- **Creu swyddi lleol** a chefnogi busnesau a chynnyrch o'r ardal
- **Hybu'r Gymraeg** drwy gynnig gwasanaeth dwyieithog a gweithgareddau diwylliannol
- **Taclo unigrywyd ac ynysigrwydd** trwy ddarparu lle cynnes a chroesawgar i bobl ddod at ei gilydd
- **Annog twristiaeth gynaliadwy**, gan ddenu ymwelwyr sy'n gwerthfawrogi diwylliant lleol, ardal Ffestiniog ac Eryri
- **Cefnogi menter gymdeithasol araill** yr ardal Blaenau Ffestiniog a chryfhau ein heonomi leol
- **Bod yn rhan o rywbeth cadarnhaol a pharhaol**, sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Mae'r model cymdeithas budd cymunedol yn sicrhau bod pob aelod yn cael llais cyfartal, a bod unrhyw elw'n cael ei ail-fuddsoddi yn y fenter ac yn y gymuned, nid i berchnogion preifat.

Mae eich cyfraniad – bach neu fawr – yn gam at adfer ysbryd cymunedol Manod. Dewch yn berchennog ar ddyfodol Yr Wynnes.

5. Y stori hyd yn hyn

Trwy gyfarfodydd cyhoeddus ac holiadur, rydym wedi canfod fod teimladau cryf o fewn y fro am yr angen i ddiogelu Y Wynnes. Gwelwyd fod cefnogaeth unfrydol bron i'r syniad o brynu a sefydlu'r busnes fel tafarn gymunedol, gan sicrhau fod y dafarn yn parhau fel canolbwynt cymdeithasol ac economaidd bwysig sy'n cefnogi ffyniant y gymuned i'r dyfodol.

Mae'r farn yma hefyd wedi'i seilio ar y ffaith bod Manod yn un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg a bod cyfrifoldeb ar bawb i wneud popeth sy'n bosibl i greu gobaith a chyfleoñ ar gyfer ffyniant y gymuned i'r dyfodol. Mae sefydlu menter gymunedol yn cael ei gweld felly fel cyfrwng i sicrhau parhad yn y gallu i weithio, cael mynediad i wasanaethau, cymdeithasu ac ymgysylltu drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Mae menter

gymunedol yn cael ei gweld yn bwysig i'r gymuned heddiw - ac yn angenrheidiol ar gyfer ein pobl ifanc a chenedlaethau'r dyfodol. Mae'r gwaith ymgysylltu a chefnogaeth hyd yma yn cynnwys:

Hyd yma rydym wedi cyflawni'r canlynol:

- 23 Medi 2024 – Daeth grŵp bach o aelodau'r gymuned ynghyd i drafod pryderon am ddyfodol Yr Wynnes a chytuno i drefnu cyfarfod cyhoeddus.
- 03 Hydref 2024 – Cynhaliwyd y cyfarfod cyhoeddus cyntaf, gyda 65 o aelodau'r gymuned yn bresennol, cefnogaeth lawn i fynd ymlaen gyda'r ymgyrch i geisio prynu Yr Wynnes fel ased cymunedol.
- Hydref 2024 – Ffurio pwyllgor cychwynnol i arwain yr ymgyrch.
- Hydref 2024 – Ceisiad grant llwyddiannus i Grymuso Gwynedd (£15,000) i dalu am gynlluniau pensaerniol, cynllun busnes a dogfen cynnig cyfranddaliadau.
- 01 Chwefror 2025 – Diwrnod glanhau cymunedol wedi'i drefnu i ddod â'r gymuned ynghyd a gwellâ'r ardal leol.
- Cyfarfodydd bwrdd ac ymweliadau ymchwil â thafarndai cymunedol eraill yng Ngwynedd.
- 24 Chwefror 2025 – Noson ymgysylltu cymunedol wedi'i threfnu, cyfle i gasglu rhagor o adborth ac atgofion am Yr Wynnes a'r ardal leol.
- Ebrill 2025 – Sefydlwyd Yr Wynnes Cyfyngedig yn swyddogol fel Cymdeithas Budd Cymunedol, aelodau'r pwyllgor cychwynnol wedi'u cofrestru'n swyddogol fel Bwrdd.
- 19 Mai 2025 – Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus i gytuno ar gynnig prynu.
- Mehefin 2025 – Prynwr wedi derbyn y cynnig.
- Awst 2025 – Sicrhawyd £50,000 o gyllid grant tuag at gost y pryniant drwy Gronfa SPF Gwynedd.
- 17 Awst Digwyddiad Picnic yn y Parc - Digwyddiad cymunedol i rannu syniadau a casglu arian.
- Cyfathrebu cyhoeddus amrywiol.

6. Pwyllgor Rheoli Cychwynnol

Yn ystod cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ar Medi 2024, ffurfiwyd y Pwyllgor Rheoli Cychwynnol o blith y rhai a nododd ddiddordeb mewn bod yn aelodau. Mae'r Pwyllgor hwn yn cynnwys 9 o bobl ac wedi cytuno ar fanylion y Cynllun Busnes a'r Cynnig Cyfranddaliadau hwn yng nghyfarfod xx.

Mae aelodau'r Pwyllgor Rheoli fel a ganlyn:

Gwenlli Evans:

Mae Gwenlli yn enedigol o Fanod ac wedi gwreiddio yn ei cymuned ac yn magu ei theulu yma, o ddydd i dydd mae hi'n gweithiwr Cyfranogi a Cyfathrebu i rhwydwaith o fentrau gymdeithasol ar draws Bro Ffestiniog ac yn gyd gadeirydd i Cymunedoli Cyf. Credai yn gryf bod dyfodol cymunedau yn ein dwylo ni fel gymuned i sicrhau bod yr elw yn gweithio er ein budd.

Nia Parri-Roberts.

Mae Nia yn wreiddiol o Ian Ffestiniog ac yn byw yn Manod ers 35 o flynyddoedd hefo ei theulu. Rwyf yn gweithio fel Cydlynydd Digartrefedd yn Meirionnydd. Rwyf yn angerddol am fy nghymuned ac yn sicr bydd y fenter yma rywbeth pwysig iawn i'r ardal yn ogystal ar diwylliant.

Eleri Lloyd Roberts

Mae Eleri yn Rheolwr Gwerth Cymdeithasol yn Mantell Gwynedd ac yn gweithio yn agos gydag elusennau a mentrau cymdeithasol yng Nghymru i fesur a rheoli effaith gymdeithasol. Yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd hybiau cymdeithasol lleol i leihau unigrwydd gwledig a hybu cyfleoedd cymdeithasu a dysgu i phob oedran.

Geraint Jones

Mae gen Geraint ddiddordeb mawr yn meter y Wynnes ac felly wedi penderfynnu bod ar y pwylgor. Pan roedd yn blentyn roedd y Wynnes yn ganol perffaith i Manod ar gymuned, ac mae geni atgofion gwych o dyfu fynnu yn yr ardal. Bellach mae Manod, oni bai am yr ysgol gynradd ar goll ydi'r elfen cymdeithasol hwn. Dwin edrych ymlaen i weld y fenter yn llwyddo a dwad a rhywbeth positif yn ol i'r pentre ar gymuned lleol.

Shane Jones

Mae Shane Jones yn un o Fanod, ac erbyn hyn mae ganddo gwmni diogelwch ei hun ac wedi bod yn gweithio yn Llundain ers sawl blwyddyn bellach. Mae'n ddiolchgar iawn i fod yn rhan o'r siwrnai i ailagor y Wynnes. Yn bersonol, mae ganddo lawer o atgofion gwych gyda'i deulu sydd ddim gyda ni mwyach. Mae'r Wynnes erioed wedi bod yn agos i'w galon, ac mae'n le gwych i fod yn rhan o'r pwylgor a gwneud gwahaniaeth i Fanod eto.

Mae ei gefndir yn drwyddedu ac yn ddiogelwch ac mae'n hoffi trefnu gwyliau. Mae wedi rhedeg tafarnau, felly mae'n meddwl y gall helpu ar y ochr hon.

Calvin Evans

Mae Cal yn wreiddiol o Flaenau Ffestiniog, ac mae wedi bod yn byw yn Manod am 20 mlynedd, ble mae'n magu ei deulu. Mae'n gweithio gyda Antur Stiniog ar brosiectau eiddo cymunedol sy'n cynnig sgiliau i gefnogi'r gwaith a gynhelir gyda'r Wynnes ac yn gyfarwyddwr ar byrddau dau fenter arall o Fro Ffestiniog. Mae'n credu'n gryf bod datblygu asedau ar gyfer y gymuned yn rhan hanfodol o'r broses o wneud ein cymuned yn well. Un o'r atgofion melys sydd ganddo am y Wynnes yw'r nosweithiau adloniant, ac edrychir ymlaen at gael nosweithiau tebyg pan agorir y Wynnes unwaith eto.

Elliw Guner

Cafodd Elliw ei geni a'i magu yn yr ardal, ac fel llawer, mae ganddi atgofion anhygoel o dreulio amser yn y dafarn – teimlai bod y lle bob amser yn ganolbwyt cymdeithasol ac yn galon y gymuned. Credir ei bod yn dorcalonnus gan ei chyflwr erbyn heddiw, ac ymunodd â Phwylgor Wynnes i helpu dod â hi'n ôl i ddefnydd, gan rannu ei phrofiad ym maes eiddo i gefnogi'r achos.

Mae gan Elliw gefndir yn y gyfraith, gyda diddordeb arbennig mewn cyfraith eiddo a chontractau. Dechreuodd ei gyrrfa mewn eiddo preswyl, gan ganolbwytio ar ddod â thai gwag yn ôl i ddefnydd, ac wedyn symudodd i eiddo masnachol ac, erbyn heddiw, i'r maes diwydiannol o fewn y diwydiant awyrofod. Mae'n edrych ymlaen at weld y dafarn wedi'i hadfer yn fan cyfarfod bywiog i bawb unwaith eto!

Jaqueline Williams

Mae Jacqueline Williams yn fam i ddwy o ferchaid sydd wedi ei magu yn Manod. Wedi bod yn gweithio fel cydlynnydd chwarae yn Barnados am 15 mlynedd a nawr yn gweithio yn Lle'Chi ysgol feithrin yn Blaenau Ffestiniog. Credir yn gryf iawn fydd agor y Wynnes yn fuddiol i bob oedran yn y gymuned ac yn fwy na parod i helpu i hel arian a rhoi fy amser i gefnogi Y Wynnes ail agor.

Mari Glyn Roberts

Cafodd Mari ei geni a'i magu yn ardal y Manod gyda'i theulu ac mae ganddi lawer o atgofion o bartïon Calan Gaeaf a gynhaliwyd yn Y Wynnes, lle'r oedd yn cymdeithasu gyda phlant yr ardal yn ystod ei phlentyndod. Mae hi'n lleol i'r ardal ac yn edrych ymlaen at weld y gymuned yn dod at ei gilydd unwaith eto, ac mae'n hynod falch o'r fenter hon. Mae hi'n angerddol dros ei chynefin ac yn hapus i fod yn rhan o agor y Dafarn Gymunedol er lles poblogaeth y dyfodol.

7.Y Cynllun Busnes

Crëwyd cynllun busnes manwl ar gyfer tair blynedd gyntaf Y Wynnes fel tafarn gymunedol. Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan, neu wneud cais am gopi papur:

Gwefan: [Home](#) | [Y Wynnes](#)

ebost: Tafarnwynnes@gmail.com

Ffôn: 07557352116

8.Model Gweithredu

Fel rhan o'r broses gynllunio busnes, mae pwylgor Yr Wynnes Cyf. wedi archwilio tri model posib ar gyfer rhedeg y dafarn unwaith y bydd wedi'i hadfer. Mae'r modelau hyn yn cael eu defnyddio'n gyffredin yn y sector tafarndai cymunedol, ac mae pob un yn cynnig manteision gwahanol o ran rheolaeth, cynaliadwyedd, a budd i'r gymuned.

Model Gweithrediad Cymunedol gyda Staff Cyflogedig (Model Dewisiedig)

Dyma'r model y mae Yr Wynnes Cyf. wedi penderfynu ei fabwysiadu. Bydd y dafarn yn cael ei gweithredu'n uniongyrchol gan y Gymdeithas Budd Cymunedol gyda thîm cyflogedig, gan gynnwys rheolwr amser llawn a staff rhan-amser. Bydd y pwylgor yn darparu arweiniad strategol a goruchwyliaeth, tra bydd y tîm staff yn gyfrifol am redeg y dafarn, caffi, hostel a digwyddiadau o ddydd i ddydd.

Manteision: Lefel uchel o reolaeth gymunedol a hyblygrwydd; cysondeb â gweledigaeth a gwerthoedd y fenter

Anfanteision: Mwy o gyfrifoldeb dros reoli staff a risgiau gweithredol

Model Tenantiaeth

Mae'r model hwn yn cynnwys gosod y dafarn ar brydles i denant neu weithredwr fyddai'n rhedeg y busnes o dan delerau cytunedig. Byddai'r Gymdeithas Budd Cymunedol yn cadw'r perchnogaeth, ond byddai'r tenant yn gyfrifol am weithrediadau dydd i ddydd, staffio a chydymffurfiaeth. Gellid cynnwys amodau o fewn y contract tenantiaeth i sicrhau bod gwerthoedd cymunedol a chymdeithasol yn cael eu cynnal, megis darparu gwasanaeth dwyieithog neu gefnogi cynhyrchwyr lleol.

Manteision: Llai o faich gweithredol ar y pwylgor; incwm rhent cyson

Anfanteision: Llai o reolaeth uniongyrchol dros y ddarpariaeth; risg na fydd y tenant yn gweithredu'n unol â gwerthoedd y gymuned

Model Gwirfoddolwyr

Yn y model hwn, byddai'r dafarn yn cael ei redeg gan gwirfoddolwyr yn bennaf, gyda chefnogaeth bosib gan reolwr rhan-amser. Mae'r model hwn yn meithrin ymrwymiad cymunedol cryf ac yn lleihau costau staffio, ond mae'n dibynnu'n helaeth ar argaeledd a chapasiti gwirfoddolwyr dros amser.

Manteision: Costau staffio isel; lefel uchel o gyfranogiad cymunedol **Anfanteision:** Risg o flinder gwirfoddolwyr; anhawster cynnal gwasanaeth cyson

Mae'r pwylgor wedi penderfynu gweithredu model **Gweithrediad Cymunedol gyda Staff Cyflogedig** fel y ffordd fwyaf effeithiol a chynaliadwy o gyflawni gweledigaeth Yr Wynnes Cyf. Mae'r model hwn yn cynnig y cydbwysedd gorau rhwng perchnogaeth gymunedol a safonau proffesiynol, gan alluogi'r fenter i dyfu, ymateb ac addasu i anghenion y gymuned leol.

Os nad yw'r model hwn yn profi'n ymarferol yn y tymor hwy – e.e. oherwydd heriau reciriwtio neu bwysau ariannol – mae'r pwylgor yn agored i archwilio'r **model tenantiaeth** fel dewis amgen. Byddai unrhyw gytundeb tenantiaeth yn cynnwys amodau clir i sicrhau bod gwerthoedd cymunedol, diwylliannol a chymdeithasol craidd yn cael eu parchu a'u cynnal.

9.Trosolwg Ariannol

Mae Yr Wynnes Cyf yn anelu at weithredu fel menter gymunedol gynaliadwy sy'n eiddo i'r gymuned. Unwaith y bydd yn agored yn llawn, bydd incwm yn cael ei gynhyrchu drwy:

- **Gwerthu diodydd a bwyd yn y dafarn a'r caffi**
- **Llety hostel (12 gwely)**
- **Llogi ystafelloedd a digwyddiadau**
- **Partneriaethau cymunedol a gweithgareddau codi arian**

Rhagwelir incwm blynnyddol o tua **£189,400 yn y Flwyddyn Gyntaf**, gan godi i **dros £208,000 erbyn Blwyddyn 3**, wrth i archebion hostel a gweithgareddau gynyddu.

Mae'r gwariant yn cynnwys staffio, stoc, cyfleustodau, yswiriant, cynnal a chadw, a rhaglen weithgareddau cymunedol. Mae'r costau hyn yn cael eu rheoli'n ofalus, gyda phwyslais ar werth am arian ac ar gyfraniad gwirfoddolwyr.

Disgwylir goroesolion net blynnyddol o:

- **£41,390 yn y Flwyddyn Gyntaf**
- **£46,420 yn Ail Flwyddyn**
- **£51,790 erbyn y Drydedd Flwyddyn**

Bydd unrhyw elw yn cael ei ail-fuddsoddi yn yr adeilad, y gweithgareddau a lles y gymuned, nid ar gyfer elw preifat. Mae'r model ariannol yn ofalus, yn wydn, ac yn adlewyrchu llwyddiant tafarndai cymunedol eraill ledled Cymru.

10. Sut bydd y Cwmni Er Budd Cymunedol yn Gweithio

Nid prynu tafarn yw'r unig beth dan sylw fan hyn - mae'n ymwneud â helpu i gynnal a sicrhau dyfodol cymuned wledig. Bydd yr enillion ariannol yn gyfyng ond efallai y byddwch yn ennill llog ac fe fydd eich atebolrwydd yn gyfyngedig.

Un aelod, un bleidlais

Mae'n rheol allweddol fod gan bob Aelod un bleidlais, waeth faint o gyfranddaliadau y maen' nhw'n berchen arnynt.

Mae pob cyfran werth £1. Isafswm cyfran ydy £50, uchafswm y cyfranddaliadau y gellir eu dal yw £10,000. Rhaid i aelodau fod dros 16 oed a rhaid talu am gyfranddaliadau yn llawn wrth wneud cais. **Gellir prynu cyfran ar ran plentyn, dylid eu henwi yn llawn yn y ffurflen prynu.**

Rheolau a Llywodraethiant

Mae'r Gymdeithas wedi mabwysiadu y Rheolau enghreifftiol ar gyfer Cymdeithasau Budd Cymunedol a luniwyd gan Sefydliad Plunkett. Gellir gweld copi ar ein gwefan.

Cyfrifoldeb y Pwyllgor Rheoli fydd sicrhau rhedeg y fenter o ddydd i ddydd, ac aelodau'r Pwyllgor fydd Cyfarwyddwyr cyfreithiol y Gymdeithas. Aelodau'r Gymdeithas fydd yn penodi aelodau'r Pwyllgor Rheoli ac yn cymeradwyo polisiau talu llog ar gyfranddaliadau ac ailbrynu cyfranddaliadau, a hynny yn y Cyfarfodydd Blynnyddol.

Bydd aelodau etholedig y Pwyllgor Rheoli yn dal eu swyddi am gyfnod o dair blynedd. Bydd yr aelodau hynny sy'n ffurfio'r Pwyllgor Rheoli Cychwynnol i gyd yn ymddeol yn y CCB cyntaf yn unol â Rheolau'r Gymdeithas ond gallant gynnig eu hunain i'w hailethol. Wedi hynny, bydd aelodau'r Pwyllgor Rheoli yn ymddeol yn raddol dros y tair blynedd ganlynol yn unol â Rheolau'r Gymdeithas. Bydd holl aelodau newydd y Pwyllgor Rheoli yn cael eu hethol gan aelodau'r Gymdeithas. Bydd gan bob aelod hawl i fynychu'r CCB a sefyll i'w h/ethol i'r Pwyllgor Rheoli.

Yn ogystal â'r Pwyllgor Rheoli fe fydd yna groeso i wirfoddolwyr ddod at ei gilydd i roi'r fenter ar ei thraed ac i helpu gyda'r gwaith o'i chynnal. Mae yna grwpiau gwahanol yn canolbwytio ar codi cyllid, marchnata a chyfathrebu, busnes y dafarn, yr adeiladau a'r tir.

Taliadau llog

Unwaith y byddwn wedi cwblhau tair blynedd gyflawn o fasnachu, ac os yw'r busnes yn rhedeg yn llwyddiannus, byddwn yn ystryried talu llog blynnyddol ar gyfranddaliadau aelodau o oddeutu 2%. Pob blwyddyn bydd y Pwyllgor Rheoli yn cyflwyno argymhelliaid ynglŷn â thaliadau llog ar gyfranddaliadau i'w gymeradwyo gan Gyfarfod Blynnyddol yr Aelodau.

Ailbrynu Cyfranddaliadau

Ni fydd yn bosibl gwerthu na throsglwyddo eich cyfranddaliadau, ag eithrio ar farwolaeth neu fethdaliad. Yr unig ffordd o gael gwerth eich buddsoddiad yn ôl fydd trwy wneud cais i'r Gymdeithas ei hun eu prynu nôl am eu gwerth gwreiddiol.

Mae rheolau'r Gymdeithas yn caniatáu'r posibilrwydd o dynnu cyfalaf eich cyfranddaliadau allan ar ôl pum mlynedd. Dim ond o'r elw y bydd y Gymdeithas yn ei wneud wrth fasnachu, neu wrth werthu cyfranddaliadau newydd, y gellir gwneud hynny. Bydd angen i chi roi o leiaf dri mis o rybudd o'ch dymuniad i dynnu'n ôl. Nid ydym yn rhagweld y gallwn ganiatáu tynnu arian yn ôl cyn blwyddyn 5. Pan fydd yn bosibl ystyried ailbrynu cyfranddaliadau, bydd y Pwyllgor yn nodi meini prawf ac uchafsymiau blynnyddol priodol. Gall y Pwyllgor benderfynu peidio â chytuno i ailbrynu os yw hynny'n groes i fuddiannau tymor hir y Gymdeithas, yr angen i gynnal cronfeydd wrth gefn digonal, a'r ymrwymiad i'r gymuned.

Clo Asedau

Mae Rheolau'r Gymdeithas yn cynnwys clo asedau sy'n creu rhwymedigaeth gyfreithiol. Mae hyn yn golygu, ar ôl iddi dalu llog i gyfranddalwyr ac ad-dalu unrhyw gyfalaf sy'n cael ei dynnu allan, fod yn rhaid i unrhyw enillion sydd yn weddill gael eu hail-fuddsoddi yn y busnes neu eu defnyddio er budd y gymuned leol neu at achos elusennol neu gymunedol arall. Mae hyn yn golygu, pe bai'r Gymdeithas yn cau ond bod yr adeilad wedi cynyddu yn ei werth, y byddai'n bosibl gwerthu'r asedau a dychwelyd cyfalaf i aelodau hyd at werth y buddsoddiadau gwreiddiol, ond na fyddai'n bosibl dosbarthu unrhyw werth ychwanegol yn y ffordd yma.

Tâl

Ni fydd cyfarwyddwyr ac aelodau yn elwa'n ariannol mewn unrhyw ffordd o weithgareddau'r Gymdeithas, heblaw trwy gymryd rhan yng nghyfranddaliadau a chynigion benthyciad y Gymdeithas.

11. Sut i wneud cais am Gyfranddaliadau

Os ydych chi am ddod yn aelod o Y Wynnes Cyf. a buddsoddi yn ein menter, cwblhewch y [Ffurflen Fuddsoddi](#) unai arlein ar ein gwefan neu trwy ei dychwelyd i'r cyfeiriad post canlynol:

152 Manod Rd
Blaenau Ffestiniog

Os y byddwch am wneud cais am gyfranddaliadau yn enw plentyn o dan 16 oed, byddwch yn ymwybodol y bydd y cyfranddaliadau'n cael eu trin fel rhai sydd wedi'u prynu ond heb eu dyroddi, ac fe gânt eu cadw mewn ymddiriedolaeth gan y Gymdeithas hyd nes i'r plentyn gyrraedd llawn oed.

Dull talu

Gofynnwn i daliadau uniongyrchol gael eu gwneud i:

Y Wynnes Cyfyngedig

Cyfrif: 71105476

Cod didoli : 51-61-14

Cofiwch gynnwys cyfeirnod o lythrennau cyntaf eich enw llawn ynghyd â thri digid olaf eich rhif ffôn, e.e

i Gwenlli Watkins Evans : GWE116.

Arian Parod a enw a cadarnhad o llenwi ffurflen yma i 152 Manod Rd, Blaenau Ffestiniog
Cash shares to be posted to 152 Manod Rd Blaenau Ffestiniog

12.Rhybydd Pwysig cyn buddsoddi mewn Cyfranddaliadau

Rhaid i chi ddarllen y pwyntiau canlynol am y cynnig cyfranddaliadau cyn penderfynu a ydych chi'n dymuno cymryd rhan:

- a. Pan fyddwch yn ystyried prynu cyfranddaliadau mae'n hanfodol eich bod yn deall mai buddsoddiad yn ein cymuned yw hwn, gyda'r bwriad o greu ased diogel a pharhaol i ni i gyd.
- b. Y bwriad yw adeiladu ar ein seiliau cymdeithasol a helpu i greu cymuned ffyniannus a chynaliadwy. Nid yw'n fuddsoddiad confensiynol ac ni ddylech ddisgwyl enillion ariannol uchel nac uniongyrchol. Mae gwybodaeth lawn wedi'i nodi yn rheolau'r gymdeithas sydd ar gael ar ein gwefan.

Sylwch:

- a. Ni all gwerth cyfranddaliadau gynyddu y tu hwnt i'w gwerth gwreiddiol. Dylech fod yn ymwybodol y gallai gwerth cyfranddaliadau ostwng os yw'r busnes yn afluwyddiannus.
- b. Fel buddsoddwr mae eich atebolrwydd wedi'i gyfyngu i werth eich cyfranddaliadau. Pe bai'r busnes yn methu, sy'n anhebygol, ni fyddai gennych unrhyw atebolrwydd pellach.
- c. Ar hyn o bryd mae'r Gymdeithas yn bwriadu ystyried talu llog ar gyfranddaliadau ar ôl i'r drydedd flwyddyn o fasnachu gael ei chwblhau a galluogi cyfranddalwyr i dynnu buddsoddiadau yn ôl ar ôl y bumed flwyddyn. Mae rheolau'r Gymdeithas yn caniatáu i daliadau llog gael eu hatal os nad yw

performiad ariannol y Gymdeithas yn cyflawnhau taliad o'r fath. Mae rhagamcanion ariannol manwl ar gyfer performiad y Gymdeithas wedi'u cynnwys yn y Cynllun Busnes.

- d. Yr unig ffordd y gall rhywun adenill ei fuddsoddiadau (p'un ai yw hynny'n swm cychwynnol neu unrhyw werth gostyngedig), onibai am daliadau llog neu ad-daliadau cyffredinol, yw trwy roi rhybudd i'r Gymdeithas o ddymuniad i dynnu buddsoddiad yn ôl. Ni all hyn ddigwydd yn ystod y pum mlynedd gyntaf wedi dyddiad cyhoeddiad y cyfranddaliadau hyn.
- e. Mae'r amodau penodol ar gyfer tynnu'n ôl yn cynnwys:
- Rhaid i arian a dynnir yn ôl gael ei ariannu o wargedion masnachu neu gyfalaf cyfranddaliadau newydd. Maent yn ddewisol, gan fod yn ddarostyngedig i fodhad y Pwyllgor Rheoli bod tynnu'n ôl yn gyson â buddiannau tymor hir y Gymdeithas.
 - Mae'r cyfanswm ad-daladwy bob blwyddyn wedi'i gyfyngu i uchafswm o 10% o werth cyfredol y cyfranddaliad.
 - Rhaid rhoi rhybudd o dri mis.
- f. **Bydd yr holl arian a fuddsoddir yn y cynnig cyfranddaliadau yma'n cael ei ddal yng nghyfrif banc Y Wynnes a'i ddefnyddio yn unig at ddibenion prynu Tafarn Y Wynnes ac adnewyddu cyfleusterau'r dafarn. Os na fydd y pryniant yn mynd rhagddo, ad-delir yr holl gyfraniadau yn net o'r costau fydd wedi codi.**
- g. Mae Y Wynnes Cyfyngiedig wedi'i chofrestru fel cymdeithas gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA), ond nid yw'r FCA yn rheoleiddio gwerthu cyfranddaliadau cymunedol. Fel llawer o fuddsoddiadau, mae cyfranddaliadau cymunedol yn agored i risg a gallech golli rhywfaint neu'r cyfan o'r arian rydych yn ei fuddsoddi. Yn wahanol i gyfrifon cadw gyda banciau stryd fawr, nid yw'r Cynllun lawndal Gwasanaethau Ariannol yn cynnwys cyfranddaliadau cymunedol, ac nid oes unrhyw hawl i gwyno i Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol. Os ydych chi'n ystyried buddsoddi swm sylweddol yna efallai yr hoffech chi ofyn am gyngor ariannol annibynnol cyn gwneud hynny.

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni:

Gwefan: [Home](#) | Y Wynnes

ebost: Tafarnwynnes@gmail.com

11. Ffurflen Fuddsoddi

Sut i gwblhau

Gallwch gwblhau y ffurflen isod a'i phostio i'r cyfeiriad nodir ar waelod y ffurflen, neu gwblhau ffurflen electroneg drwy ymweld â'm gwefan – Ywynnes.com
neu <https://forms.gle/jMKF17MVGkuXuGh4A>

Nodwch y Swm llawn rydych eisiau ei fuddsoddi (isafswm o £100, uchafswm o £10,000)

£ _____

Manylion y person neu sefydliad sydd yn buddsoddi:

Enw _____

Cyfeiriad _____

Côd post _____

Rhif ffôn _____

E-bost _____

Ac, os yn prynu ar ran plentyn (dan 16 oed):

Dyddiad geni y plentyn _____

Dull talu

- Taliad uniongyrchol i'n cyfrif banc
Y Wynnes Cyfyngedig
71105476
51 - 61 -14
(PWYSIG - Defnyddiwch)
- Siec yn daladwy i Y Wynnes Cyfyngedig**
- Arian parod (danfon i'r cyfeiriad isod)

Postio / Danfon

Ffurflenni papur wedi'i cwblhau a / neu sieciau / arian parod at: 152 Manod Rd , Blaenau Ffestiniog, Gwynedd,
LL41 4AH

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen a deall y Cynnig Cyfranddaliadau llawn a chytunaf i'r canlynol gael eu cadw mewn crona ddata electronig: fy enw, cyfeiriad, ffôn, e-bost, nifer y cyfranddaliadau a brynwyd.
Defnyddir y wybodaeth yma i gynnal cofrestr o aelodau a chyfranddaliadau fel sy'n ofynnol gan reolau'r

Gymdeithas, ac ar gyfer cyfathrebu gweithgareddau Y Wynnes. Bydd y swm a fuddsoddir yn gyfrinachol ac ni fydd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei throsglwyddo i drydydd parti.

Llofnod _____

Enw _____

Dyddiad _____

Derbyneb

Cyhoeddir derbynebau trwy e-bost lle bynnag y bo modd i leihau costau gweinyddol. Bydd dystysgrif cyfranddaliad yn cael ei anfon atoch maes o law.

y wynnes

share
scheme



Our Pub
Our Community
Our Future

August 2025

Y Wynnes Cyfyngedig (FCA Registration No. 9526)

The Share Offer document provides full details of the offer. The full Business Plan is a separate document and is available on our website or by contacting us.

Share Offer Closing Date: 30-10-25

Email: Tafarnwynnes@gmail.com

Website: [Home | Y Wynnes](#)



1. Executive Summary

Yr Wynnes Cyfyngedig is a Community Benefit Association which has been created by local people to secure and protect the future of Tafarn Yr Wynnes, Gwynedd and ensure that it continues as a community hub for the benefit of the local community.

We are aiming to raise £75,000 from the Share Purchase Offer, which is open to the community and the general public. The target has been set based on the cost of buying the pub (£110,000), legal costs and money towards the refurbishment. A £50,000 grant has been secured towards the purchase, but the difference must be raised through the shares.

Buying shares makes you a Member of the society and gives you a say in how it is run. Each member has one vote, regardless of how many shares they buy. The minimum shareholding is **£50** and the maximum is **£10,000**.

This document:

- describes the project, and its benefits to members and the community
- explains the nature of the association and how the share offer will work

- contains information on how to apply for shares

2. The Vision and Values

After over eight years of closed doors, we will reopen this asset as a symbol of hope, renewal and local pride for Manod, Blaenau Ffestiniog

